



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

POLISI SEBIANT O GANLYNIAD I BROFEDIGAETH

Adolygwyd	Dyddiad	Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid		Dyddiad Adolygu
1.	2006			2007
2.	2007			2008
3.	2014	Newidiadau cosmetig		2015
4.	2015	Diweddarau i sicrhau eglurder		2016
5.	2016	Newidiadau cosmetig		2017
6.	2018	Adolygiad - dim newidiadau		2020
7.	2020	Ychwanegu seibiant o ganlyniad i brofedigaeth fel rhiant		2022
Swyddog Polisi		Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol	Cymeradwywyd gan a'r dyddiad	Asesu effaith cydraddoldeb a dyddiad
Jade Luke		Steffan Griffiths	HRTG 06/04/2020	

Cynnwys

1	RHAGARWEINIAD	3
2	HYD SEIBIANT O GANLYNIAD I BROFEDIGAETH	3
3	DYCHWELYD I'R GWAITH WEDI CYFNOD O SEIBIANT O GANLYNIAD I BROFEDIGAETH	4
4	CYFRIFOLDEBAU'R GWEITHIWR	4
5	CYFRIFOLDEBAU'R RHEOLWR	4
6	ADOLYGU'R POLISI	4

1 RHAGARWEINIAD

Mae'r brifysgol yn sylweddoli'r trallod mawr a achosir gan brofedigaeth a bydd yn gwneud popeth i weithredu'n sensitif a rhoi cefnogaeth i aelodau staff sy'n cael profedigaeth drwy ganiatáu amser rhesymol o'r gwaith i ddelio â sefyllfaoedd o'r fath.

Bwriad y polisi hwn yw rhoi canllawiau ynghylch seibiant tosturiol y gellir ei roi'n dilyn marwolaeth aelod agos o'r teulu.

2 HYD SEIBIANT O GANLYNIAD I BROFEDIGAETH

Gan fod yr amgylchiadau, natur y berthynas, a defodau gwahanol grefyddau yn gallu amrywio, mae'n anodd pennu'n union faint o seibiant tosturiol a ganiateir ym mhob achos o brofedigaeth. Mae'r wybodaeth isod yn rhoi canllawiau cyffredinol ar hawl staff i seibiant tosturiol gyda thâl yn dilyn profedigaeth:

- Yn achos marwolaeth aelod agos iawn o'r teulu, h.y. priod, partner sifil, partner, rhiant/llys-riant, plentyn/llysblentyn (dros 18 oed), brawd neu chwaer, caniateir hyd at 5 diwrnod o seibiant gyda thâl. Mae'r cyfnod hwn yn cynnwys yr amser sydd ei angen i fynd i'r angladd (ac eithrio lle mae'r aelod staff yn gyfrifol am drefnu'r angladd ac, yn yr achos hwnnw, gellir caniatáu mwy o amser o'r gwaith).
- Os bydd plentyn/llys-blentyn yn marw (o dan 18 oed) neu'n farw-enedig (ar ôl 24 wythnos o feichiogrwydd), rhoddir hyd at bythefnos o amser i ffwrdd â thâl. Gellir cymryd seibiant naill ai mewn un bloc neu mewn dau bloc o un wythnos ar wahân a gellir eu cymryd ar unrhyw adeg yn ystod y 56 wythnos gyntaf ar ôl colli'r plentyn.
- Yn achos marwolaeth perthynas agos, h.y. nain/taid, tad-yng-nghyfraith, mam-yng-nghyfraith, brawd-yng-nghyfraith, chwaer-yng-nghyfraith, mab-yng-nghyfraith, merch-yng-nghyfraith, ewythr, modryb neu wŷr/wyres, caniateir hyd at 3 diwrnod o seibiant gyda thâl. Mae'r cyfnod hwn yn cynnwys yr amser sydd ei angen i fynd i'r angladd (ac eithrio lle mae'r aelod staff yn gyfrifol am drefnu'r angladd ac, yn yr achos hwnnw, gellir caniatáu mwy o amser o'r gwaith).
- Fel rheol caniateir hyd at 1 diwrnod o seibiant gyda thâl i aelod staff sydd ond eisiau mynd i angladd perthynas neu ffrind/cydweithiwr agos.
- Lle bo'n rhaid i'r aelod staff deithio pellter mawr i fynd i angladd/trefnu angladd, yna gellir caniatáu 1 diwrnod pellach o seibiant gyda thâl, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Bydd angen i bob cais am seibiant gael ei ystyried yn ôl amgylchiadau'r achos a natur perthynas yr aelod staff â'r sawl sydd wedi marw.

3 DYCHWELYD I'R GWAITH WEDI CYFNOD O SEBIANT O GANLYNIAD I BROFEDIGAETH

Mewn achosion lle mae staff yn wynebu anawsterau yn dilyn profedigaeth, gallant fanteisio trwy gysylltu â Care First

Mae Care First yn ddarparwr annibynnol, blaenllaw o wasanaethau cefnogi gweithwyr proffesiynol. Maent yn cyflogi cwnselwyr ac arbenigwyr gwybodaeth â chymwysterau proffesiynol, sydd â phrofiad o helpu pobl i ddelio â phroblemau ymarferol ac emosiynol. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim.

Dylai aelodau staff sy'n methu â dychwelyd i'r gwaith yn dilyn seibiant o ganlyniad i brofedigaeth drafod gyda'u rheolwr llinell gymryd cyfnod pellach o absenoldeb naill ai fel gwyliau arferol, seibiant di-dâl neu absenoldeb salwch (gyda'r olaf dylid dilyn y trefniadau arferol yn ymwneud ag Absenoldeb Salwch).

4 CYFRIFOLDEBAU'R GWEITHIWR

Dylai aelodau staff roi gwybod i'w rheolwr llinell cyn gynted â phosibl am eu hangen i gymryd seibiant o ganlyniad i brofedigaeth, gan egluro beth yw natur y seibiant.

5 CYFRIFOLDEBAU'R RHEOLWR

Dylai rheolwyr llinell sicrhau eu bod yn rhoi sylw tosturiol a phrydlon i bob cais am amser o'r gwaith o ganlyniad i brofedigaeth.

Dylid cofnodi seibiant o ganlyniad i brofedigaeth trwy lenwi'r Ffurflen Seibiant o ganlyniad i Brofedigaeth.

6 ADOLYGU'R POLISI

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau o dro i dro i wneud yn siŵr ei fod yn dal i fod yn addas at anghenion y sefydliad ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.